**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

1 Rhagfyr 2021

Annwyl Adrian a Lindsay,

## Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2021, a oedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am gostau ac arbedion y cynllun teithio a chynhaliaeth presennol a'r cynllun teithio a chynhaliaeth arfaethedig. Ar ôl myfyrio ar y wybodaeth hon a'n trafodaethau blaenorol, mae'r Pwyllgor yn cytuno mewn egwyddor i gyllideb atodol o £1.48 miliwn yn 2021-22 i ariannu ymadael yn gynnar â Lwfans Teithio presennol Archwilio Cymru. Bu trafodaeth hir yn y Pwyllgor, fodd bynnag, a bu'r Aelodau'n mynegi dadleuon o blaid ac yn erbyn cefnogi'r cynnig. Er bod y Pwyllgor yn cytuno, nid oedd y penderfyniad yn un unfrydol felly.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i'n diweddaru ar y gost a'r arbedion gwirioneddol yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd, i drafod opsiynau ar gyfer dychwelyd y tanwariant arian parod a'r arbedion yn 2022-23.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. /We welcome correspondence in Welsh or English.